

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun yr 8fed o Ionawr 2024 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: Derrick Harries (Cadeirydd), Arwyn Jones, Eirian Howells, Ann Sillars, Andrew Jones, Ambrose Lewis, Alyson Harries, John Phillips, Linda Davies & Dyfed Davies.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth y Cynghorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Dymunodd Derrick Harries Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolchodd iddynt am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**
Ni nodwyd unrhyw datgan budd.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 6ed o Dachwedd 2023 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Roedd y clerc wedi ysgrifennu at berchnogion tir ger yr heol o Penybont i Talog yn nodi pryder y cynghorwyr am bosibilrwydd coed yn cwmpo ar draws yr heol. Roedd perchnogion Cwmgest wedi ffonio'r clerc yn nodi nad oeddent yn berchen ar dir gyda coed arnynt ar yr heol yma. Nid oedd perchnogion Penrhiwbeili wedi ymateb.
 - Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir yn nodi pryder fod perchenog Ronnany yn parcio car ar yr heol o flaen y tŷ yn bwrpasol fel nad oedd cerbydau yn medru troi o amgylch yno. Nid oedd y clerc wedi derbyn ymateb.
 - Roedd y diffibriliwr newydd wedi cael ei osod ym Mhenybont. Roedd Indeg Jameson wedi bod yn ddigon caredig i gytuno fod yn warchodwr arno.

6. Gohebiaeth

a. Roedd LKL Construction wedi danfon anfoneb o £2,628.00 am ail wneud wyneb yr heol o'r Ydlan hyd y fynwent. Cytunwyd i dalu'r anfoneb.

b. Roedd ebyst parthed heolydd wedi eu cau wedi cael eu danfon ymlaen i'r cynghorwyr.

c. Ceisiadau Cynllunio:

PL/07034 – Estyniad llawr sengl a newidiadau mewnol @ Tygwyn, Meidrim, SA33 5PG

d. Roedd y Cyngor Sir wedi danfon ffurflen Praesept am 2024-25. Cytunwyd i beidio a gofyn am arian.

7.Cyllid - Cyfrif Busnes Cyfredol £1,201.66

8. Unrhyw Fater Arall

- Adroddwyd tyllau ar yr heolydd
 - Ger Brynawel
 - Penybont i Bethania
 - O Trelech I Dinas Fach
 - O Castellmawr i Felindre
 - Rhiw lawr i Dinas
- Codwyd pryder fod y marciau heol wedi erydu ger Felindre yn nodi fod cyffordd yno. Roedd yr arwydd 'Rhoi Ffordd' hefyd wedi ei golli.

- Byddai Cinio'r Cadeirydd yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 8.40yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 4ydd o Fawrth 2024.